

Holiadur adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae set o ddatganiadau wedi'u drafftio i'w cynnwys yn holiadur effeithiolrwydd y Bwrdd. Gofynnir i unigolion raddio'r datganiad gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol:

Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Niwtral	Cytuno	Cytuno'n gryf
-------------------------	------------------	----------------	---------------	----------------------

Unwaith y cytunir arnynt, caiff y datganiadau eu mewnbynnu i holiadur ar-lein. Bydd yr holl ymatebion i'r holiadur yn gwbl ddiennw.

Bydd dolen yn cael ei anfon at holl aelodau'r Bwrdd, Cyfarwyddwyr Strategol, ac Ysgrifennydd y Bwrdd. Bydd gan unigolion wythnos i ymateb.

Bydd yr ymatebion yn cael eu hasesu, a bydd adroddiad cryno yn cael ei lunio gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Bydd yr adroddiad yn cael ei glirio gan y Cadeirydd cyn iddo gael ei ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd i'w drafod yn sesiwn effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Chwefror.

Bydd rhai o'r datganiadau yn anodd eu hateb o ystyried aeddfedrwydd y sefydliad — bydd ein blwyddyn gyntaf o weithrediadau yn edrych yn wahanol i flynyddoedd y dyfodol.

Wrth ystyried a chytuno ar y datganiadau, cofiwch y bydd y rhain yn aros yr un fath am flynyddoedd 2024/25 a 2025/26. Mae hyn er mwyn i ni allu mesur cynnydd gan ddefnyddio gwerth 3 blynedd o ddata.

Mae'r datganiadau arfaethedig wedi'u rhannu o dan 4 pennawd:

- Perfformiad
- Ymgysylltu
- Cyfansoddiad
- Gwybodaeth a chefnogaeth

Perfformiad: mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut mae aelodau'r Bwrdd wedi perfformio ar y cyd ac yn unigol.

1. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu yn effeithiol i gyflawni eu cyfrifoldebau.
2. Mae diwylliant a naws trosfwaol y Bwrdd yn adlewyrchu'r diwylliant dymunol ar gyfer Llais.
3. Mae'r Bwrdd yn glir ar bwrpas, cyfeiriad, a gwerthoedd Llais.
4. Mae'r Bwrdd yn ystyried blaenoriaethau Gweinidogol a nodau strategol wrth gytuno ar bolisi a strategaeth.
5. Mae'r prosesau ar gyfer adnabod, adolygu a rheoli risgiau ar lefel y Bwrdd yn effeithiol.
6. Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r data perfformiad y mae'n ei dderbyn i fesur cyflawni amcanion a blaenoriaethau sefydliadol.
7. Mae trafodaethau'r Bwrdd yn cael eu gosod ar lefel strategol briodol.

8. Mae arferion, perthnasoedd a normau diwylliannol y Bwrdd yn gymharol â Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac arferion gorau eraill.
9. Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n dda gyda chymysgedd o aelodau anweithredol, aelod gweithredol, ac aelod cysylltiol.
10. Mae ymrwymiad y Bwrdd i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol yn glir o'r ffordd y mae'n cynnal ei fusnes.
11. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn dangos parodrwydd i gyfrannu a chymryd rhan mewn trafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r tu allan iddynt.
12. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r iaith y maent yn ei defnyddio mewn cyfarfodydd yn gyhoeddus. Mae'r Aelodau'n ofalus i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif yn ystod cyfarfodydd yn gyhoeddus.

Ymgysylltu: mae'r adran hon yn canolbwyntio ar berthnasoedd a sut mae'r Bwrdd yn cyfathrebu ac ymgysylltu â'i gilydd, ein rhanddeiliaid, a'n pobl.

13. Mae gan y Bwrdd berthynas dda gyda'r weithrediaeth.
14. Mae gan y Bwrdd berthynas dda â rhanddeiliaid allweddol.
15. Mae gan y Bwrdd berthynas dda â Thîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru.
16. Mae'r Bwrdd yn cyfathrebu â'i bobl a rhanddeiliaid eraill, yn gwrandao ac yn ymateb iddynt yn effeithiol.

17. Mae'r Bwrdd yn dangos cydbwysedd iach o her a chefnogaeth gyda'n pobl yn ystod trafodaethau.
18. Mae'r Bwrdd yn weladwy i bob rhan o'r sefydliad.
19. Mae aelodau'r Bwrdd yn parchu barn a chyfraniadau ei gilydd.

Cyfansoddiad y Bwrdd: mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sgiliau a phrofiad y Bwrdd yn ogystal â datblygiad.

20. Mae cyfansoddiad y Bwrdd a'i bwyllgorau; gan gynnwys cydbwysedd sgiliau, profiad, gwybodaeth, lleoliad daearyddol, ac amrywiaeth (o ran oedran, anabledd, rhyw/rhywedd, hil, crefydd/credoau, a Chyfeiriadedd rhywiol) yn dda.
21. Mae gan y Bwrdd gynlluniau olyniaeth a datblygu clir ar waith.
22. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach.
23. Mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu profiadau byw a phroffesiynol priodol i helpu i lunio polisi.

Gwybodaeth a chymorth: mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau'r Bwrdd.

24. Mae ansawdd y data perfformiad sefydliadol a ddarperir i'r Bwrdd yn dda.
25. Mae ansawdd ac amseru papurau a chyflwyniadau i'r Bwrdd yn dda.
26. Rhoddir digon o amser i'r Bwrdd ystyried a thrafod materion, o fewn a thu allan i gyfarfodydd y Bwrdd.
27. Mae dull y Cadeirydd o sicrhau digon o ddadlau ar gyfer penderfyniadau mawr neu faterion dadleuol yn effeithiol.
28. Mae Pwyllgorau'r Bwrdd, gan gynnwys eu Cylch Gorchwyl, a sut maent yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn effeithiol.
29. Mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod cyfarfodydd yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r aelodau, ein pobl, a'r cyhoedd.
30. Mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan y Cadeirydd a'u cyfoedion.
31. Mae disgwyliadau'r Bwrdd o ba mor gyflym y gellir cyflawni amcanion a chynhyrchu gwaith yn realistig.

Adolygiadau effeithiolrwydd y Bwrdd 2024/25 a 2025/26

Gellir ychwanegu cwestiwn ychwanegol at yr holiadur ar gyfer 2024/25 a 2025/26. Un cwestiwn y bydd angen ei ychwanegu yw:

32. Mae'r Bwrdd wedi gweithredu'r argymhellion o'i adolygiad effeithiolrwydd diwethaf.

Y tu hwnt i 2025/26:

Caiff y cwestiynau hyn eu hadolygu, a gall y Bwrdd ddewis newid y cwestiynau neu'r broses.